CYFLWYNIAD

(Cwrdd)

**Amser i adfer yw'r oedfa - defod**
**Ufudd teulu Adda,**
**Awr ber i dorri bara**
**A gweld dyn drwy'r Bugail Da.**

Bore da, a chroeso i'r gwasanaeth.

(Gwynfyd, gan Crwys)

**"Ei enw yw paradwys wen,**
**Paradwys wen yw enw'r byd,**
**Ac wylo 'rwyf o'i golli cyd**
**A'i geisio hwnt i sêr y nen.**

**Nid draw ar bellbell draeth y mae,**
**Nc obry yng ngwely'r perlau chwaith,**
**Ond milmil nes, a ber yw'r daith**
**I dawel byrth y byd di-wae.**

**Tawelach yw na'r dyfnaf hun,**
**Agosach yw na throthwy'r drws,**
**Fel pêr-welyau'r rhos o dlws -**
**A'r allwedd yn fy llaw fy hun."**

Gawn ni ddechrau drwy gyd-ganu'r nawfed emyn.

EMYN RHIF 9 (TÔN RHIF 8)

**(Diar 3:3) "Bydd yn garedig ac yn ffyddlon bob amser; clyma bethau felly fel cadwyn am dy wddf, ysgrifena nhw ar lech ar dy galon."**

Amcan y gwasanaeth heddiw yw ystyried y syniad o "ffydd", rhywbeth sy'n ganolog i fywyd i Cristion un sicr, ac yn ganolog i fywyd unryw fath o grediniwr.

**(Mth 9:2) "A dyma rhyw bobl yn dod â dyn wedi ei barlysu ato, yn gorwedd ar fatras. Pan welodd Iesu eu ffydd nhw, dwedodd wrth y dyn oedd wedi ei barlysu, "Cod dy galon, ffrind; mae dy bechodau wedi eu maddau.""**

Nid yn unig ar grediniwr mae angen ffydd. Na, hyd y gwelwn i, mae ffydd yr un mor bwysig i'r anghrediniwr. Efallai nid yn union yr un "ffydd", ond "ffydd" wedi'r cwbl. Efallai taw nid fel "ffydd" y byddai'r anghrediniwr yn disgrifio'r cysyniad, ond, i fi beth bynag, ffydd ydyw.

Felly beth yw ffydd? Efallai taw peth ffôl yw hyd yn oed mentro ar ddiffyniad - yn enwedig ar fore Sul - ond dyma'n ymgais i: Y gallu neu'r parodrwydd i dderbyn fod rhywbeth yn wir, ar ôl ystyriaeth fanwl, ond heb brawf neu dystiolaeth digonol. Neu'r parodrwydd i dderbyn ffordd o feddwl neu o fyw, crefydd, athroniaeth, moesoleg neu ddamcaniaeth yn

ganllaw sylfaenol heb orfodaeth, fel un dewis o blith nifer o ddewisiadau posib, ar ôl ystyriaeth ddwys. Neu'r teimlad angerddol di-amheuol fod *rhaid* fod rywbeth "fel y mae e'".

Ac unwaith fod dyn yn derbyn a dilyn y *ffydd*, ac yn dryw, yn *ffydd-lon* iddi, dyna fyd o fendithion sy'n cynig ei hun. Fframwaith er adeiladu bywyd a chymdeithas, rhesymeg a gwyddor yw ffydd. Elwn i mor bell a dweud taw *gwynfyd* yw ffydd - y bendith fwyaf gall dyn ei dderbyn.

DARLLENIAD (Y Bregeth ar y Mynydd; Mth 5:1-11)

**"Pan welodd Iesu yr holl dyrfaoedd, aeth i fyny i ben y mynydd. Pan eisteddodd i lawr, daeth ei ddilynwyr ato, a dechreuodd eu dysgu, a dweud:**
**"Mae'r rhai sy'n teimlo'n dlawd ac anigonol wedi eu bendithio'n fawr, oherwydd mae'r Un nefol yn teyrnasu yn eu bywydau.**
**Mae'r rhai sy'n galaru wedi eu bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n cael eu cysuro.**
**Mae'r rhai addfwyn sy'n cael eu gorthrymu wedi eu bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n etifeddu'r ddaear.**
**Mae'r rhai sy'n llwgu a sychedu am gyfiawnder wedi eu bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n cael eu bodloni'n llwyr.**
**Mae'r rhai sy'n dangos trugaredd wedi eu bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n cael profi trugaredd eu hunain.**
**Mae'r rhai sydd â chalon bur wedi eu bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n cael gweld Duw.**
**Mae'r rhai sy'n hyrwyddo heddwch wedi eu bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n cael eu galw'n blant Duw.**
**Mae'r rhai sy'n dioddef erledigaeth am eu bod yn byw'n gyfiawn wedi eu bendithio'n fawr, oherwydd mae'r Un nefol yn teyrnasu yn eu bywydau.**
**Pan fydd pobl yn eich sarhau chi, a'ch erlid, ac yn dweud pethau drwg amdanoch chi am eich bod yn perthyn i mi, 'dych chi wedi'ch bendithio'n fawr! Byddwch yn llawen! Mwynhewch er gwaetha'r cwbl, achos mae gan Dduw yn y nefoedd wobr fawr i chi. Cofiwch fod y proffwydi oedd yn byw ers talwm wedi cael eu herlid yn union yr un fath!"**

Parhawn drwy gyd-ganwn emyn rhif 189

EMYN RHIF 189 (TÔN 157)

GWEDDI

A gawn ni ymdawelu i gyd-fyfyrio am ychydig funedau, a chyfri'n bendithion:

Diolchwn am y cyfle i ddod at ein gilydd unwaith eto ar fore Sul ym Mhendre'.

Diolchwn am yr holl fendithion ddaeth i'n rhan yn ystod yr haf - hwyl yr Eisteddfod, llwyddiant ein bobl ifanc, tywydd da a chyfle i deithio, ymweld â theulu a ffrindiau, ymlacio a mwynhau.

Bellach, mae'r haf yn troi'n hydref, tymor ysgol newydd wedi dechrau, a bywyd yn ail-gydio'n ei guriad arferol, ei rhythm bob dydd. Diolchwn am guriad bywyd, rhythm y tymhorau, rhythm ein dyddiau, rhythm bywyd ei hun.

I rai o blant yr eglwys, mae'n ddechreuad cyffrous yn y brifysgol. Profiadau newydd, cyfleoedd newydd, cyfeillion newydd - a hwyrach ambell bryder newydd. 'Da ni'n fawr obeithio y bydd eu magwriaeth ym Mhendref yn gyngor ac yn ganllaw, wrth iddynt fentro i'r byd.

Â'r dyddiau'n byrhau, cyn hir bydd ein meddyliau'n troi unwaith eto at y gaeaf, y Nadolig, y Flwyddyn Newydd a'r gwanwyn. R'yn ni'n ffyddiog, er ddued y nos, fod 'na fore wastad yn dilyn. Efallai nid yn union y bore'r oeddem yn ei ddisgwyl, ond bore wedi'r cyfan. Gweddiwn am y nerth i weld bendithion pob bore newydd, a'u dathlu, a gweud y gorau ohonynt.

Cofiwn am deulu a ffrindiau lle bynag y bont y bore 'ma. Cofiwn am rheini sy'n galaru. Cofiwn am rheini sy'n anhwylus. Cofiwn am rheini mewn cyfyng-gyngor. Dymunwn yn dda i'r rhain i gyd, a chwiliwn am y nerth a'r doethineb i fedru cynig cymorth dymunol iddynt yn ôl eu hangen.

Chwiliwn am y nerth i ddilyn neges y Beibl - neges ein ffydd - neges cariad, trugaredd a heddwch - yn ein bywydau. Mewn byd sy'n teimlo'n fwyfwy hunanol a di-drugaredd, di-Dduw a di-obaith, nid hawdd yw canllaw cariad. Ond mae'r bore Sul hwn ym Mhendref ac mewn capeli ac eglwysi ledled Cymru, ac achlysuron tebyg mewn eglwysi, synagogau, mosgau a themlau ledled byd yn brawf fod miloedd, miliynau ohonom yn benderfynol o ddilyn ffordd cariad, trugaredd a heddwch. Mewn byd lle mae'n ymmdangos, o leiaf, fod llawer gwell gan y cyfryngau gyhoeddi newydd drwg na da, hawdd anghofio hyn. Gweddiwn am y nerth i ddathlu a chyhoeddi a chlodfori gweithredoedd o gariad, o drugaredd a heddwch y profwn o'n cwmpas bob dydd, yn hytrach na lladd ar eraill, lladd ar ein gilydd, a lladd ar ein hunain.

Meddyliwn am yr eithafon o gyfoeth a thlodi sy'n bodoli yn y byd sydd ohoni. Anodd derbyn fod dyn a chyd-ddyn yn gyfartal. Yn pigo yng nghornel cydwybod, gwyddwn fod dylanwad y cyfoethog llawer fwy na dylanwad y tlawd. A gwyddom fod hyn yn anheg. Gweddiwn am y nerth i siarad o blaid cydraddoldeb, yn erbyn eithafon cyfoeth a thlodi, ac yn erbyn rheini sy'n clodfori'r cyfoethog a bychanu'r tlawd.

Cofiwn am drigolion Affganistan, Irac, yr Aifft a Syria. Pobl yn dioddef rhyfel a gwrthrhyfel. Pobl yn marw oherwydd uchelgais personol un neu fwy o arweinwyr di-hud a chul eu meddwl, yn manipiwleiddio hen rhagrithiau, hen fwganod, at eu dibenion eu hunain. Gweddiwn dros arweinwyr y gwledydd cyfoethog, milwriaethus, y byddant yn roi *eu* huchelgais personol a phleidiol i un ochr wrth benderfynu p'un ai ymyryd ai peidio mewn helbulion rhyngwladol. Gweddiwn y gwelwn un diwrnod tô newydd o arweinwyr rhyngwladol - arweinwyr hwyrfrydig - "reluctant leaders" i'r Sais - dderbyniant gyfrifoldeb heb ei geisio; derbyniant gyfrifoldeb dros fywydau eraill fel baich trwm, baich o'r pwysigrwydd eithaf, na ellid ei fychanu ar unryw cyfrif; arweinwyr â'r dewrder a'r weledigaeth i ddilyn llwybr cariad, trugaredd a heddwch.

Cofiwn am drigolion Affrica Is-Sahara sydd wedi dioddef newyn a chlefyd ers cenedlaethau. Yn pigo yng nghefn ein meddyliau, gwyddwn - pe byddai'r ewyllys gwleidyddol yn bodoli - y byddai'n hawdd i lywodraethau'r gwledydd cyfoethog helpu'r rhain. Ond gwyddwn hefyd nad yw achub bywydau yn Affrica - na chodi'r tlotaf ym Mhrydain o'u tlodi 'chwaith - yn mynd i enill etholiad cyffredinol Prydeinig. Mae'n ymddangos taw ond tori trethi'r dosbarth canol, ac enill ambell frwydr mewn gwlad bell a wnaiff hyny. Gweddiwn am y nerth a'r hyder i nofio yn erbyn y llif, i siarad yn blaem o blaid ein delfrydau dyngarol - yn ystyrlon ac yn ddeallus - ac i wrthwynebu pragmatiaeth economaidd-wleidyddol tymor byr ac uchelgais personol di-hud.

Cofiwn am rheini sy'n rhoi gymaint i fendithio'n bywydau ni. Yn deulu, ffrindiau a chymdogion; yn athrawon, nyrsys a meddygon; yn wyddonwyr a pheirianwyr. Diolchwn i bawb sy'n cyfranu at gywaith ein cymdeithas. Diolchwn am ein breintiau a'n doniau ni'n hunain, a'r cyfle i gyfranu at ein cymdeithas.

Diolchwn am gyfoeth ein Cymreictod; ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth. Diolchwn am gyfoeth miloedd o ddiwyllianau ledled Daear, a'r cyfle i'w gwerthfawrogi a'u clodfori - nid eu hofni - a thrwy wneud hyny, cyfoethogi'n diwylliant ni ein hunain.

A gweddiwn am y nerth a'r gallu i gadw'i fynd; i gadw'r ffydd; i gadw'r ganwyll ynghyn a'r golau mewnol yn llachar, y galon yn lân a'r cydwybod yn weddol glir.

Gofynwn hyn yn enw'r hwn a'n dysgodd, pan yn gweddio, i ddweud gyda'n gilydd:
Ein Tad, yn y nefoedd ...

CYHOEDDI A CHASGLU

Parhawn drwy ganu rhif yr emyn 324

EMYN 324 (TÔN 369)

Mae gan bob un ohonom ei hoff bethau - ei hoff bynciau. Nid yw pregethwyr nac athrawon na gwyddonwyr, na phobl sy'n "cynig rhoi sgwrs ar fore Sul" ddim gwahaniaeth. Fel y gwyddoch erbyn hyn, 'dw i'n hoffi meddwl am y cysylltiadau rhwng y crefyddol a'r gwyddonol - gan taw gwyddoniaeth yw fy myd i.

Mae 'na dueddiad ymlith gwyddonwyr yn arbenig, a phobl seciwlar yn gyffredinol, i feddwl taw rhywbeth ysbrydol, mater i gredinwyr yn unig, yw ffydd. Gwaeth, mae 'na duedd gynyddol yn y byd sydd ohoni - byd y cyfryngau, yr enwog a'r ffasiynol - i honi fod 'na ddim lle i ffydd yn yr unfed ganrif ar hugain. Ond dwi eisie dadle'r bore 'ma fod angen ffydd arnom ni 'gyd, ta beth yw'n daliadau personol ynglyn â chrefydd. Os taw torth o fara oedd dyn, dywedswn i mae ffydd fyddai'r burum - yr elefen sylfaenol i dynu'r cynhwysion at ei gilydd, i'n *codi*, fel petai.

Dewch i ni ystyried byd ffiseg a mathemateg am ychydig y bore ‘ma.

Mae'r seryddwyr yn dweud taw 13.6 biliwn o flynyddoedd yw oed ein bydysawd. Dechreuodd y cyfan a "chlec fawr" pan - am ryw reswm - y creuwyd popeth o ddim byd o gwbl. Mae'r bydysawd yn enfawr. Byddai gronyn o olau - ffoton - yn mynd o amgylch ein Daear 8 gwaith mewn eiliad. Mae golau o'r lleuad yn cymryd eiliad - mwy neu lai - i'n cyraedd; mae golau o'r haul yn cymryd 8 muned i'n cyraedd; mae golau o'r seren Vega - un o'r sêr mwyaf llachar yn awyr y nos - yn cymryd 25 mlynedd i'n cyraedd. Hyny yw, mae'r golau o'r seren sy'n ein cyraedd ni heddiw yn dweud wrthom am gyflwr y seren 25 o flynyddoedd yn ôl; hyny yw, y flwyddyn 1988 y gwelwn ni yng ngoleuni Vega heddiw. Pe byddai'r seren Vega yn diflanu'n gyfan gwbl, byddai'n cymryd 25 mlynedd cyn i ni *allu* gwybod am y digwyddiad. Eto mae'r golau o rai ser yn cymryd *13 biliwn* o flynyddoedd i'n cyraedd. Hyny yw, yn ôl y seryddwyr, r'yn ni'n "gweld" yr hyn oedd yn digwydd 13 biliwn o flynyddoedd yn ôl!

Wrth gwrs, nid oes tystiolaeth uniongyrchol genym fod hyn i gyd yn wir; yr hyn sydd genym yw *model* neu ddamcaniaeth. Mae'r ddamcaniaeth yn gadael i ni ddarogan priodweddau'r bydysawd. R'yn ni'n addasu ac yn gwella'r ddamcaniaeth fel iddi allu ddarogan gystal â phosib. Mae'r model - y ddamcaniaeth - yn dda, ond dim ond model ydyw er hyny. Duw yn unig a ŵyr os ydyw'n wir! Mae 'na ddywediad treiddiol gan ystadegydd enwog o Sais o'r enw George Box: "**mae pob model - pob damcaniaeth - yn anghywir, ond mae rhai modelau yn ddefnyddiol**". Mae genym *ffydd* mewn model - fel model y sêr - am ei fod o ddefnydd yn ein bywydau, yn ein helpu ni o ddydd i ddydd i ddeall y byd o’n cwmpas.

Mae'n anochel meddwl am ein daliadau crefyddol ni ein hunain yn y goleuni hwn. Anodd iawn genyf gredu fod ein ffordd o feddwl am grefydd a "Duw" a "Christnogaeth" yn "iawn" neu "gwir" neu’n "berffaith" - ta beth mae "iawn" a "gwir" a "pherffaith" yn meddwl yn y cyswllt hwn - ond y mae ein ffordd o feddwl - ein daliadau crefyddol - yn

ddefnyddiol. Yn syml, mae'n nhw'n helpu ni i fyw.  Anodd iawn genyf dderbyn fod unryw grefydd aeddfed arall yn well neu'n waeth na Christnogaeth, yn y bôn. Rhaid i bawb ohonom gydnabod y dylsem fod yn barod i addasu a gwella'n daliadau a'n ffordd o feddwl - heb golli doethineb a defnyddioldeb conglfeini'n credoau a gasglwyd dros y canrifoedd - fel fod gobaith ini fyw yn well yn y dyfodol. Model yw'n crefydd ni - gwyddom ei fod yn amherffaith, ond y *mae* wedi profi'n ddefnyddiol i genedlaethau.

DARLLENIAD (Gwynfyd doethineb; Eclesiasticws 14: 20-27):

**Gwyn ei fyd y sawl a fyfyria ar ddoethineb ac a ddengys ei ddeall yn ei ymddiddan; y sawl sy'n gosod ei fryd ar ei ffyrdd hi a gaiff amgyffred hefyd ei chyfrinachau. Dos ar ei hôl hi fel heliwr, a gosod fagl i'w dal yn ei llwybrau.**

**Y sawl sy'n sbïo trwy ei ffenestri ac yn clustfeinio wrth ei drysau, yn codi ei lety yn ymyl ei thŷ, ac yn ei hoelio wrth ei muriau hi, caiff hwnw osod ei babell gerllaw iddi a lletya yn llety'r goreuon**

**Caiff osod ei blant dan ei chysgod a gorffwys dan ei changhenau. Hi fydd ei gysgod rhag y gwres, a'i gogoniant hi fydd ei lety.**

Rhaid parchu'r sawl – y gwyddonydd a'r athronydd, er engrhaifft - sy'n treilio'i fywyd yn ceisio gwneud synwyr o'n byd ni! Ond ni yw gwneud gyrfa o wyddoniaeth neu athroniaeth yn gwneud y sawl hwnw'n holl-wybodus! Dyma perygl gor-ddibynaeth ar y ffordd wyddonol o feddwl; mae mor llwyddianus mewn rhai meysydd, anodd derbyn fod yr un ffordd o feddwl yn gamarweiniol mewn meysydd eraill!

Ydych chi wedi gweld y simbol am ***anfeidredd*** - "infinity" i'r Sais - mae fel rhif wyth ar ei ochr. Anfeidredd yw'r canlyniad o gymryd rhif, adio un ato, ac wedyn un arall, ac un arall, a dal i fynd am byth - mae anfeidredd yn fwy nag unrhyw rhif fedrwch feddwl amdano. Ydi anfeidredd yn "bodoli", yn "iawn" neu'n "wir", dywedwch? Duw a ŵyr! Yn sicr mae'n *ymddangos* fod anfeidredd yn bosib - am bob rhif meddyliwn amdano, mae modd adio un ato i'w wneud yn fwy - a mwy a mwy am byth. Ond nid oes neb fyth yn mynd i weld anfeidredd, ei gyffwrdd, ei *brofi*. Canlyniad i ddamcaniaeth yw anfeidredd – allbwn model os y mynwch chi.

Mae 'na sawl fath o anfeidredd. R'yn ni 'di clywed am y mwyaf syml yn barod - a dyma un arall i chi. Meddyliwch am y rhifau un a dau eto. Dewiswch unrhyw rhif rhyngddynt, wedyn dewiswch unrhyw rhif rhwng un a'r rhif hwnw, a gwnewch hyn drosodd a throsodd - fe allwch fynd am byth yn llythrenol. Hyny yw, mae 'na anfeidredd o rhifau rhwng y rhifau un a dau. Hyny yw, mae anfeidredd o fath arbenig yn llechu rhwng y ddau rhif symlaf sydd genym.

Ydi chi fyth wedi meddwl beth yw'r rhif "un"? Neu'r rhif "dau"? Mae'n hawdd roi enghraifft o "un dyn" neu "dwy bioden". Mae'n weddol hawdd esbonio'r gwahaniaeth rhwng un o rhywbeth a dau ohonynt; ond beth yn union yw "un" a "dau" yn y bôn? Dyn o'r enw *Cantor* oedd y cyntaf i ddyfeisio ffordd o ddiffinio "un" a "dau" a phob rhif cyfan arall drwy ddefnyddio damcaniaeth ***setiau***. A Cantor oedd y dyn cyntaf i roi synwyr mathemategol i'r syniad o anfeidredd. Rhan o ddamcaniaeth setiau yw "un" a "dau" i'r mathemategydd modern; gwrthrychau abstract, ond defnyddiol. Does dim *gwirionedd* fel petai'n perthyn iddynt, ond y maent yn gysyniadau defnyddiol.

Mae'r ffisegydd Stephen Hawking wedi ancangyfrif taw cyfanswn gronynau yn y bydysawd yw 10^122 (deg i'r pwer cant dauddeg dau) - sef 1 ac 122 dim yn dilyn - coblyn o rif! Mewn ffordd o feddwl, dyma'r rhif cyfan mwyaf y gwyddom ei fod yn cynrychioli rywbeth "gwir" am ein byd. Paham felly fod angen rhif yn fwy na 10^122? Oes angen anfeidredd?

Wyddoch chi fod 'na fathemategwyr eraill yn honi taw "camsyniad" yw'r cysyniad o anfeidredd - mae'r bobl hyn yn dweud *fod* yna rhif mwyaf yn bodoli. Mae anfeidredd wedi drysu ein ffisegwyr gorau ar sawl achlysur. Heb anfeidredd, gall esbonio rhai o briodweddau'n byd fod yn llawer haws. Ydi anfeidredd yn bodoli? Dim ond Duw a ŵyr.

Ydych chi fyth wedi meddwl beth yn union yw "dim"? Dyna gwestiwn dwys arall, sydd wedi poeni mathemategwyr ac athronwyr ers canrifoedd! Yn wir, adeg Crist, mae'n debyg nid oedd cysyniad mathemategol o "ddim" yn bodoli o gwbl. Welwch chi fyth mo "dim" nac "un" a "dau" nac "anfeidredd"; rhan o fodel mathemategol ydynt; Duw yn unig a ŵyr eto os ydynt yn "wir", ond yn sicr y mae nhw'n hynod o ddefnyddiol. Mae genym ffydd ynddynt. Pob tro yr adiwn un o rywbeth at un o'r un peth, 'da ni'n cael "dau" ohonynt yn ddi-ffael!

Feddylioch chi erioed am *ddisgyrchiant*? - "gravity" - y grym sy'n cadw'n traed ar y llawr yn llethrenol? A'r grym sy'n cadw'n Daear mewn orbid o amgylch yr Haul. Gwnaeth gwyddonwyr adeg y Goleuad - y Renaissance - pobl fel Newton - ddyfeisio damcaniaeth i ddarogan effeithiau disgyrchiant. Hyny yw, os wna i ollwng y papur i'r llawr, gall ddamcaniaeth Newton rhagweld i'r dim hyd y gwymp, cyflymder y papur wrth daro'r llawr ayyb. Gwelodd Einstein wallau yn namcaniaeth Newton, a llwyddodd yntau a'i ddamcaniaeth "general relativity" i esbonio sut mae golau ei hun yn gallu cael ei blygu gan ddisgyrchiant! Neu sut mae cloc ar ben y mynydd yn *cerdded yn arafach* na chloch ar waelod dyffryn. Neu sut mae cloc mewn awyren cyflym yn *cerdded yn arafach* na chloc mewn man sefydlog. Anhygoel - ond gwir i gyd. Ond gwyddoch chi, does *neb* yn gwybod *sut* mae hyn i gyd y gweithio! Neb! R'yn ni'n gallu darogan effeithiau disgyrchiant, heb wybod o gwbl beth *yw* disgyrchiant, a sut mae disgyrchiant y gweithio.

Glywsoch chi siwr o fod am "quantum mechanics". Damcaniaeth yw hon sy'n gallu esbonio priodweddau'r gronynau sylfaenol ein byd ni - fel y ffoton, yr electron a'r proton. Yr electron, y proton a'r niwtron yw cynhwysion pob atom yn y bydysawd, fel y cofiwch! Wyddoch chi - yn ôl *quantum mechanics* - fod 'na ddeuoliaeth rhyfedd gan bob gwrthrych - o'r gronynau lleiaf i'r planedau a'r heuliau, i'r bydysawd ei hun. Fe ellid meddwl am electron, er engrhaifft, fel gronyn *neu* fel ton. Mewn arbrawf, os *nad ydym* yn ymyryd ar yr electron - er engrhaifft drwy edrych arno - mae'r electron yn ymddwyn fel ton, ond unwaith ini arsylwi arno, mae ymddwyn fel gronyn. Nid oes neb yn deall *paham* fod hyn fel y mae, a nid oes neb yn deall *sut* mae hyn yn gweithio.

Mae 'na *arbrawf pen* - "thought experiment" - enwog gan y ffisegydd Schrodinger. Meddyliwch am focs pren heb ffenest. Mae 'na gath fach yn y bocs. Yno hefyd mae 'na ffynhonell o ymbelydredd - radioactivity - a photel yn llawn nwy gwenwynig. Gall ronyn ymbelydrol ddadelfeni ar unryw adeg - ar hap - ond gall neb rhagweld *yn union* pryd. Os ddigwyddiff i ronyn ddadelfeni, bydd yn ffrwydro'r potel nwy gwenwynig, a bydd y gath yn marw. Ond mae'r bocs ar gau, felly does neb yn gwybod os yw'r gath yn fyw neu yn farw - *tan* i ni agor y bocs. Mewn ffordd o siarad, mae'r gath *yn fyw ac yn farw ar yr un pryd* â'r bocs ynghau, ond yn fyw *neu* yn farw unwaith ini agos y bocs! Rhyfedd. Mae angen ffydd i gredu'r fath beth - ond dyma'n union beth mae'r ffisegwyr yn ei *gredu* sy'n *wir* am ein byd ni!

Feddylioch chi erioed am y peth symlaf, y peth mwyaf sylfaenol, y gallwch brofi am eich hunain, eich bywyd? Sut y *gwyddoch* fod 'na bobl arall yma yn y festri gyda chi heddiw? Sut y *gwyddoch* eich bod mewn festri? Sut y gwyddoch fod genych ddwylo, bysedd? Sut y gwyddoch chi fod genych synhwyrau o gwbl. Sut y gwyddoch eich bod *yn bodoli o gwbl*? Pa dystiolaeth *uniongyrchol* sydd genych. Pa arbrawf allwch ei gynal, a'i hail-gynal, i brofi - *tuhwnt i unryw amheuaeth* - eich bod yma o gwbl? Y gwir yw: *r'yn ni ddim yn gwybod*. Nid oes arbrawf i brofi'r peth mwyaf sylfaenol amdanom - ein bodolaeth ni ein hunain - hyd yn oed. Wrth gwrs, mae'r athronwyr wedi pendroni dros y ffaith hon ers miloedd o flynyddoedd. Fel dywedodd y Ffrancwr *Descartes,* y gorau gallwn wneud yw dweud "ein bod yn *credu* ein bod yn *meddwl*" - ein bod fel petai yn *ymwybodol* o'r ffaith fod genym syniadau, teimladau - ta beth mae "ymwybyddiaeth" yn meddwl yn y cyswllt hwn. "**Penso ergo sum**" - "**meddyliaf, felly yr wyf**".

Welsoch chi'r ffilm y "Matrix" erioed? Ynddi, mae poblogaeth y Ddaear - pob yr un ohonom - wedi ei gysylltu'n uniongyrchol â chyfrifiadur enfawr sy'n creu byd dychmygol rhithwir - "virtual reality" - i bawb. Mae bobl yn rhyngweithio â'i gilydd, ond dim ond yn y byd cyfrifiadurol dychmygol yma. Mewn gwirionedd, mae cyrff y bobl mewn ryw fath o ffatri ieir - corff ar ôl corff wedi ei gysylltu i rwydwaith electronig y byd dychmygol. Mae'n ddarlun arswydus. Ond mwy arswydus fyth, nid oes modd genym y bore 'ma i brofi taw nid "dychmygol" yw'r bywyd r'yn ni'n ei fyw nawr, yma heddiw. Beth yw realiti? Wyddoch chi fod rhai gwyddonwyr yn meddwl o ddifrif taw *simiwleiddiad yw ein* bydysawd - ac mai rhan o simiwleiddiad ydym ni - *go iawn*. Rhan o ryw arbrawf gyfrifiadurol ydym oll, arbrawf gan uwch-fod holl-alluog, tu hwnt i bob deall - Duw? Duw'r Creawdwr? Duw a allai ar unryw eiliad wthio'r swits, a diffodd y trydan - a'n diffodd ni. Uwch-rhaglenydd all ymyryd yn ei simiwleiddiad ar unryw bryd fel y myno. Ydi hwn yn ddehongliad *dilys* o'n byd? *Ydi*. Gall unrywun brofi mai *nid* dyma'r dehongliad "gwir". *Na*! Beth fyddai gwerth bywyd, gwerth ymdrech, gwerth cariad, mewn byd o'r fath? Ai Duw i'w garu a'i addoli fyddai'r fath Dduw? Mae'n teimlo'n fwy o unben na Duw i fi. Fel ysgrifenodd y Ffrancwr *Jean Paul Satres*, efallai taw *dibwys yw bywyd*, fod 'na ddim ots o gwbwl sut 'da ni'n byw neu'n marw.

Yr unig egwyddor sydd genym i'n harwain yw'n ffydd. Ffydd, pan awn i'r gwely gyda'r nos, y byddwn yn dihuno'r bore wedyn i'r un realiti â'r diwrnod cynt. Ffydd y bydd y bobl o'n cwmpas, y buont mor garedig atom yn y gorffenol, yn garedig eto yn y dyfodol. Ffydd y bydd y galon yn dal i guro, ffatri'r iau yn dal i brosesi, yr arenau'n dal i buro. Ffydd fydd 'na ocsigen yn yr awyr eto 'fory i'w anadlu. Ffydd y bydd un ac un yn dal i wneud dau, a'r Ddaear yn dal i amdroi o gylch yr haul.

Ffydd fod 'na bwrpas, fod 'na ystyr i'r holl feddyliau a phrofiadau y teimlwn eu bod yn "wir" ac yn "real". Ffydd fod 'na ystyr i'r gobeithion a'r dyheadau a'r cyngor a groniclir yn ein Beibl. Ffydd fod 'na'r fath gysyniadau â daioni a chariad. Ffydd fod trin eraill fel yr hoffem i eraill ein trin ni yn bwysig. Ffydd fod 'na *achos ac effaith*. Ffydd i ymddiried. Ffydd i wneud ein gorau glas, a gadael y gweddill i Dduw. Ffydd i aros yn dryw i'n diwylliant, i'n ffordd o fyw, i'n cymunedau a'n treftadaeth, ein hiaith a'n gwlad.

Welsoch chi erioed y fflim "Contact" o waith y seryddwr o America, Carl Sagan, gyda Jodie Foster yn sereni? Ymgais yw'r ffilm i ddod â *ffydd y Cristion a ffydd y gwyddonydd at ei gilydd* - i'w gweld yn yr un goleui. Mae 'na ddau brif gymeriad: gwyddonwraig ifanc, a gweinidog yr efengyl. Ar ddechrau'r ffilm mae'r gwyddonwraig a'r gweinidog yn syrthio mewn cariad - ffilm o Hollywood yw hi, wedi'r cyfan! Mewn ffordd tyner iawn, mae'r gwyddonwraig yn gwneud hwyl o'r gweinidog am ei ffydd, a'i ddaliadau ysbrydol - daliadau ni ellid eu profi tuhwnt i unryw amheuaeth. Er mwyn talu'r pwyth yn ôl, mae'r gweinidog yn gofyn i'r wyddonwraig brofi ei bod hi wedi caru ei thad, y bu farw pan oedd yn ferch ifanc. Wrth gwrs, ni allai hi wneud hyny o gwbl mewn ffordd dderbyniol iddi hithau, sef ffordd "wyddonol" ddiamheuol. Ond dal i dynu hwyl ar ffydd y gweinidog wnaith y ferch.

Wedyn, daw uchafbwynt y ffilm. Caiff y ferch brofiad o gael ei thywys i blaned yn ymyl y seren Vega, a chwrdd â pherson - *bod* o fyd allan - yno. Digwyddodd hyn mewn arbrawf y teledwyd dros y byd i gyd *yn fyw*. Profiad *y ferch* oedd bod ar daith i Vega a barodd *am bron ddiwrnod cyfan*. Ond i'r gwylwyr teledu ar y ddaear, digwyddodd yr holl siwrnai *mewn milfed o eiliad* - oherwydd effeithiau damcaniaeth "general relativity" Einstein. Gwelodd holl boblogaeth y Ddaear fod y ferch wedi aros yn ei hunfan ond am amrantiad dibwys - ond roedd y ferch *yn gwybod* yn wahanol - ei phrofiad hi oedd taith o bron diwrnod i Vega ac yn ôl ar gyflymder yn agos i gyflymder golau - ond nid oedd ganddi unryw dystiolaeth i gadarnhau ei stori. *Gwyddai'r ferch a phob cell o'i chorff* iddi fynd i Vega a chwrdd â pherson o fyd arall, ond ni allai brofi dim. Taerodd taw dweud y gwir ydoedd - ond yn ofer - a dim ond ei ffrind - y pregethwr a'i charodd - a'i chredodd. Sylweddolodd y wyddonwraig a'r pregethwr *pwysigrwydd* a *thebygrwydd* eu ffydd.

Nid dadlau wyf dros ffydd *ddall* na ffydd *gul* na ffydd *ddi-amheuaeth*. Rhaid amau'n ffydd ar bob cyfle, ond wedi amau

rhaid bod yn llawn ffydd - yn ffyddlon - a derbyn yr hyn a ddaw. Mae gan y Mwslemiaid ymadrodd da i glorianu: "**clymwch eich camel gyntaf, ac wedi gwneud hyny, gadewch y gweddill i Dduw**".

A dychmygwch sut fyd, sut fywyd fyddai gan rhywun o'r fath ffydd - sicrwydd y bydd bore'n dilyn nos, fod un ac un yn rhoi dau, fod na bwrpas i'n bodolaeth. Ffydd mewn athroniaeth, meddyleg, gwyddoniaeth a chrefydd. Ffydd fod byw yn dda yn ddigon. Dyma chi nefoedd ar y ddaear! Dyma *wynfyd* di-guro - ar gael i ni 'gyd - sydd o dan ein trwynau - ond i ni gredu. Unwaith eto, yng ngeiriau Crwys:

**"Ei enw yw paradwys wen,**
**Paradwys wen yw enw'r byd,**
**Ac wylo 'rwyf o'i golli cyd**
**A'i geisio hwnt i sêr y nen.**

**Nid draw ar bellbell draeth y mae,**
**Nc obry yng ngwely'r perlau chwaith,**
**Ond milmil nes, a ber yw'r daith**
**I dawel byrth y byd di-wae.**

**Tawelach yw na'r dyfnaf hun,**
**Agosach yw na throthwy'r drws,**
**Fel pêr-welyau'r rhos o dlws -**
**A'r allwedd yn fy llaw fy hun."**

Er mwyn Ei Enw - A-men.

A gawn ni ddiweddu’r gwasanaeth drwy gyd-ganwn emyn rhif 755.

EMYN 755 (TÔN 612)

*(Deall)*
***Diben dod i ben y daith - nid dychryn,***
***Ond dechrau gweld cywaith***
***Sawdd ym mer yr oesoedd maith:***
***I orffen, pawb yn berffaith.***

A bydded i ras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fod gyda ni oll. A-men.